**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AM 10AM AR 16 TACHWEDD 2022 YN NHŶ HASTINGS A THRWY MS TEAMS**

**Yn bresennol:** Mrs Bev Smith (Cadeirydd); Mr Michael Imperato; Mr Frank Cuthbert; Mrs Dianne Bevan.

**Swyddogion Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (CFfDLC) a oedd yn bresennol:** Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Tom Jenkins (Pennaeth Polisi a Rhaglenni); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mrs Catherine Thomas (Swyddog Cymorth Busnes).

**Amser Dechrau: 10.20**
**Amser Gorffen: 11.41**

## 1. Datganiadau Buddiannau

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau Buddiannau.

## 2. Gwybodaeth gan y Cadeirydd

2.1. Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Comisiwn fod Lisa James o Is-adran Noddi'r Comisiwn yn Llywodraeth Cymru (LlC) ar wyliau ac felly nad oedd cyfarfod gyda LlC i adrodd arno.

2.2. Byddai'r drafodaeth ar y Papur Llety yn cael ei gohirio i alluogi'r Ysgrifenyddiaeth i drafod opsiynau llety ychwanegol gyda LlC.

2.3. Mynychodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr gyfarfod ar-lein a gynhaliwyd gan LlC ar y Papur Gwyn. Roedd nifer o Weinyddwyr Etholiadol ar yr alwad a chanolbwyntiwyd ar agweddau'r Papur Gwyn nad oeddent yn ymwneud ag arolygon.

2.4. Byddai LlC yn recriwtio pumed Comisiynydd yn fuan i fod yn aelod o fwrdd CFfDLC a'r Panel Cydnabyddiaeth Ariannol Annibynnol (IRP). Roedd dau newid wedi cael eu gwneud i'r swydd-ddisgrifiad.

**Gweithredu:** Y Prif Weithredwr i ofyn i'r Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu hysbysebu'r swydd yn allanol pan fydd yn fyw ar wefan LlC.

2.5. Roedd y Comisiwn yn edrych ymlaen at gynnal y cyfarfod Rhyng-Gomisiwn blynyddol ar 25 Tachwedd yng Ngwesty Mercure Holland yng Nghaerdydd gyda chinio'r noson gynt. **Nodwyd** na allai Michael Imperato fynychu'r

cyfarfod mwyach ac y bu'n rhaid i Richard Wyn Jones (siaradwr) dynnu'n ôl o'r digwyddiad. Gwahoddwyd Cathy Owens o Deryn Consulting yn ei le.

2.6. Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r cyfarfod y byddai'n cadeirio dau ddigwyddiad 'Amrywiaeth mewn Democratiaeth' LlC sydd i'w cynnal yng Nghaerdydd a Llandudno. Bydd y Prif Weithredwr yn mynychu gweithdy Caerdydd ar 5 Rhagfyr.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2022

**3.1.** **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2022 yn gofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

## 4. Materion yn Codi

**4.1.** **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad gan nodi unrhyw faterion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a rhoddwyd diweddariad ar gynnydd y materion canlynol:

**4.2.** **(Mater 2) –** Mae gwaith paratoi wedi dechrau ar gyfer yr Arolygon Cymunedol a bydd arolwg Bro Morgannwg yn dechrau ym mis Ionawr. Mynychodd y Prif Weithredwr gyfarfod â gweithgor trawsbleidiol Cyngor Bro Morgannwg i roi gwybodaeth ychwanegol am y broses arolygu. Disgwylir i arolygon Caerffili a Sir Benfro ddechrau yn ystod y misoedd ar ôl i arolwg Bro Morgannwg ddechrau.

**4.3.** **(Mater 4)** – Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn cael arddangosiad cyntaf o'r porth newydd yn ystod yr wythnos ar ôl y cyfarfod hwn.

**4.4.** **(Mater 5)** – Byddai recriwtio CEX yn cael ei godi yn y cyfarfod nesaf gyda Lisa James.

**4.5.** **(Mater 7)** – **Cytunwyd** ailystyried mater llety swyddfa yng nghyfarfod mis Rhagfyr.

**4.6.** **(Mater 8)** – Bydd y Digwyddiad Briffio Technegol yn cael ei gynnal ar 15 Rhagfyr cyn cyfarfod CFfDLC.

## 5. Adroddiad ar Gyllideb 2022-23

**5.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad gan y Rheolwr Cyllid a **nodwyd** a **chymeradwywyd** y gyllideb hyd at ddiwedd mis Hydref 2022.

5.2. **Nododd** y Comisiwn y trosglwyddiadau rhwng y cyllidebau costau staff a dodrefn i fynd i'r afael â gorwariant bach ar y cyntaf.

5.3. **Nodwyd** bod £81,690 o danwariant ar ddiwedd mis Hydref, yn bennaf o ganlyniad i danwario ar gostau staff; roedd staff ychwanegol yn cael eu recriwtio'n hwyrach na'r bwriad a bu oedi cyn i LIC gymeradwyo'r strwythur staff newydd a'r codiad cyflog. Amcangyfrifwyd y byddai £110,000 o danwariant erbyn diwedd 2022 yn dibynnu ar b'un a oedd staff ychwanegol wedi cael eu recriwtio, y strwythur staff newydd wedi cael ei gymeradwyo gan LIC a chytundeb ar y codiad cyflog. Os na fyddai'r rhain yn digwydd, gallai'r gorwariant fod yn fwy. Roedd rhai costau cyfreithiol a chostau cysylltiedig â'r porth i ddod, ond roedd darpariaeth wedi cael ei gwneud ar gyfer y rhain.

## 6. Rheoli Risg

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 2 Tachwedd 2022 gan y Rheolwr Cyllid.

6.2. **Nodwyd** na fu unrhyw newidiadau i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ers y cyfarfod diwethaf.

6.3. Trafodwyd risgiau posibl y darpar raglen waith a **chytunwyd** i adolygu'r rhain mewn cyfarfod diweddarach.

6.4. Rhoddodd Michael Imperato ddiweddariad anffurfiol ar gyfarfod mis Tachwedd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC) a **chytunwyd**, o ran archwiliad manwl, y dylai'r ARAC amlygu'r meysydd y mae angen i'r Comisiwn eu harchwilio ac yna cyfeirio'r rhain at y Comisiwn.

**Gweithredu:** Y Prif Weithredwr a Swyddogion i baratoi eitem i'w thrafod yn ystod y Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd ym mis Ionawr, a fydd yn amlygu risgiau sicrwydd/llywodraethu yn y dyfodol ac yn canolbwyntio ar y meysydd allweddol y mae angen i'r Comisiwn bryderu amdanynt.

6.5. Trafodwyd parodrwydd isel presennol y Comisiwn i dderbyn risg a chynigiodd yr ARAC y dylai hyn gael ei adolygu. Ystyriwyd bod y system bresennol ar gyfer pennu'r parodrwydd i dderbyn risg yn annigonol ac yn aneglur. **Cytunwyd** ychwanegu hyn at yr agenda ar gyfer y Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd.

**Gweithredu:** Y Prif Weithredwr a Swyddogion i baratoi eitem i'w thrafod yn ystod y Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd ym mis Ionawr ynglŷn â pharodrwydd y Comisiwn i dderbyn risg.

**6.6.** **Nodwyd** y bydd crynodeb ffurfiol o gyfarfod mis Tachwedd yr ARAC yn cael ei gyflwyno i gyfarfod mis Rhagfyr.

## 7. Trafodaeth ynglŷn â Phapur Gwyn LIC

**7.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad gan y Prif Weithredwr a **chytunwyd** I ailedrych ar ymateb y Comisiwn yng nghyfarfod mis Rhagfyr cyn ei gyflwyno ar 10 Ionawr. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiynwyr yn ymateb trwy e-bost i unrhyw ddiwygiadau pe byddai angen.
**Gweithredu:** Y Prif Weithredwr i ailstrwythuro ymateb y Comisiwn a'i gyflwyno i gyfarfod mis Rhagfyr.

## 8. Calendr Digwyddiadau

**8.1.** **Nododd** y Comisiwn y Calendr.

**8.2.** Roedd y Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd wedi'i drefnu ar gyfer 18 Ionawr.

**8.3.** **Nodwyd** bod Frank Cuthbert ar Wasanaeth Rheithgor o 1 Rhagfyr ymlaen ac efallai na fydd yn gallu mynychu cyfarfod CFfDLC ym mis Rhagfyr.

## 9. Unrhyw Fater Arall Perthnasol

**9.1.** Nid oedd unrhyw fater arall i'w drafod.

## 10. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 15 Rhagfyr 2022